**Cofnodion Bwrdd Rheilffyrdd TrC Cyf**

**26 Ebrill 2024**

0900 – 1400

Lleoliad: Llys Cadwyn

**Yn bresennol**

James Price (Cadeirydd), Heather Clash, Jan Chaudhry Van der Velde, Peter Strachan a Marie Daly.

**Hefyd yn bresennol**

Julian Edwards (Cyfarwyddwr Anweithredol Cysylltiol) a Jeremy Morgan.

Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan y Cadeirydd.

**1a. Ymddiheuriadau am Absenoldeb**

Marie Daly.

**1b. Hysbysiad ynghylch Cworwm**

Gan fod cworwm yn bresennol, croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod a datgan bod y cyfarfod yn agored.

**1c. Datgan Buddiant**

Cadarnhaodd yr aelodau fod eu datganiadau o fuddiannau a gyhoeddwyd yn gyfredol ac nad oedd unrhyw fuddiannau ychwanegol i'w datgan yn ymwneud yn benodol ag eitemau ar yr agenda. Mae Heather Clash, Alexia Course a James Price yn aelodau dros dro o Fwrdd Ffeibr TrC. Julian Edwards yw rheolwr gyfarwyddwr dros dro Cross Country Trains Ltd ac esgusododd ei hun o'r yr eitemau ar docynnau rhatach a rheoli refeniw (prisiau Awyrennau).

**2. Sylw i ddiogelwch.**

Cafodd y Bwrdd yr wybodaeth ddiweddaraf am fuddsoddiad diweddar yn y System Diogelu Depo gan ddefnyddio technoleg wedi'i diweddaru.

**3. Sylw i Gwsmeriaid**

Ystyriodd y Bwrdd y defnydd o ddata gwell gan gynnwys cyfuno data rhwydwaith, perfformiad a chwsmeriaid i hyrwyddo tueddiadau perfformiad.

Roedd y Bwrdd yn annog defnyddio mwy o fentrau marchnata uniongyrchol ynghylch negeseuon syml fel bod y rhwydwaith yn agored a threnau'n rhedeg.

**4. Cofnodion a Chamau Gweithredu**

Cymeradwywyd cofnodion cyfarfod 28 Mawrth 2024. Nodwyd y Log Camau Gweithredu.

**5. Adroddiad y Prif Swyddog Gweithrediadau**

Derbyniodd a nododd y Bwrdd drosolwg o adroddiad y Prif Swyddog Gweithrediadau. Roedd yr adolygiad yn canolbwyntio ar y materion canlynol:

- Cyfnod olaf cadarn o'r flwyddyn ar gyfer perfformiad gyda gwelliant graddol o ran Amser a Gollir gan Deithwyr (PTL) ar linellau craidd y cymoedd a Chymru a'r Gororau. Y methiant mwyaf sylweddol o ran seilwaith a effeithiodd ar berfformiad a refeniw oedd tirlithriad yn Oakengates a gaeodd y rheilffordd rhwng Amwythig a Birmingham am dair wythnos o'r cyfnod. Cafodd y perfformiad ar lwybr y Gororau ei nodi gan y nifer cynyddol o drenau gyda thri, pedwar a phump cerbyd a oedd yn gweithredu ar y llwybr.
- Mae cwrs hyfforddi Gyrwyr a Gwarchodwyr wedi cael ei gwblhau ym mhob depo ar gyfer fflyd Class 197. Nododd y Bwrdd fod nifer yr unedau Class 197 yn y fflyd wedi aros yn 46 dros y cyfnod. Roedd problem gyda thyrbos aflwyddiannus yn y fflyd wedi cael ei rheoli'n dda oherwydd cydweithio effeithiol rhwng CAF a TrC.
- Darparu gwasanaethau arlwyo ar gerbydau MKIV ac ansicrwydd i deithwyr ynghylch a fyddai'r gwasanaeth ar gael. Trafododd y Bwrdd opsiynau posibl ar gyfer cyfleu argaeledd y gwasanaeth.
- Anaml iawn y mae trenau Class 231 ar gael fel arfer oherwydd problem a achosir gan rwystro hidlyddion gronynnau diesel. Ceisir ateb.
- Mae tri mater cysylltiadau diwydiannol wedi cael eu datrys ynghylch cyflog rheolwr gyrwyr; anghydfod â rheolwyr ac arweinwyr tîm yn sefydliad y fflyd ynghylch cyfran y cyflog nad yw'n bensiynadwy; ac anghydfod ag ASLEF ynghylch dulliau cyfrifo nifer y staff yn y sefydliad a chwotâu gwyliau blynyddol depos.
- Yr angen am eitem 10 munud yn benodol ar ddiogelwch yn y Bwrdd hwn **[Cam Gweithredu Leyton Powell]**
- Digwyddiadau ar y gweill dros y misoedd nesaf Trafododd y Bwrdd werth ailysgrifennu'r amserlen ar gyfer digwyddiadau penodol.
- Yr angen i nodi penderfyniadau a wnaed eleni a allai gael effaith ariannol yn y flwyddyn ariannol nesaf a'r angen i nodi cyfaddawdau.
- Y potensial i wybodaeth am gwsmeriaid gynnwys 'y trên cyflymaf nesaf i…' Cytunwyd y dylid edrych ar rinweddau hyn **[Cam Gweithredu Jan Chaudhry Van der Velde].**

Nododd y Bwrdd bod yr adroddiad yn cydnabod y perfformiad da yn ystod y cyfnod.

**5.1 Adroddiad Dangosyddion Perfformiad Allweddol Strategol**
Nododd y Bwrdd yr adroddiad.

**5.2 Adroddiad Sicrhau Diogelwch**
Nododd y Bwrdd yr adroddiad.

**6. Dangosfwrdd Risg Rheilffyrdd**
Derbyniodd a nododd y Bwrdd drosolwg o'r dangosfwrdd risg.

**7. Adolygiad ariannol**

*Ymunodd Stephanie Raymond â'r cyfarfod.*

[redacted]

Nododd y Bwrdd yr adroddiad cyllid a mynegodd ei ddiolch i'r tîm am eu gwaith tua diwedd y flwyddyn.

*Gadawodd Stephanie Raymond y cyfarfod.*

**8. Diweddariad masnachol**

[redacted]

Cafodd y Bwrdd yr wybodaeth ddiweddaraf am Talu wrth Fynd, sydd ar hyn o bryd yn fyw mewn 11 o orsafoedd yn Ne-ddwyrain Cymru, o Bont-y-clun i Gasnewydd, ac yn ymestyn i orsafoedd hyd at Lynebwy.

[redacted]

Nododd y Bwrdd yr adroddiad.

**9. Arbedion COS manwerthu**

*Ymunodd Chad Collins â'r cyfarfod.*

[redacted]

Croesawodd y Bwrdd y cynigion a chymeradwyodd y cynigion ac eithrio cael gwared ar gynnyrch disgownt ar y trên.

**10. Prisiau gostyngol**

*Gadawodd Julian Edwards y cyfarfod oherwydd gwrthdaro posibl rhwng buddiannau.*

Ystyriodd y Bwrdd bapur yn nodi pum newid a argymhellwyd i brisiau heb eu rheoleiddio a chynnyrch/cynlluniau disgownt ar draws y rhwydwaith yn 2024/25. Y nod fyddai symud cwsmeriaid at gynnyrch newydd pan fydd eu cynnyrch/cynllun presennol yn dod i ben. [redacted]

[redacted]

*Gadawodd James Price y cyfarfod, a chymerodd Peter Strachan yr awenau fel Cadeirydd.*

**11. Rheoli refeniw**

Trafododd y Bwrdd brisiau mwy deinamig ac amrywiol. Nodwyd bod prisiau ar drefn debyg i docynnau Awyrennau wedi bod ar waith ar draws rhwydwaith Cymru a'r Gororau ers dros 10 mlynedd a thrafodwyd amrywiaeth o welliannau posibl. [redacted]

Nododd y Bwrdd y papur.

**Gan nad oedd unrhyw fater arall, diolchodd y Cadeirydd i bawb am eu cyfraniadau a daeth â'r cyfarfod i ben.**